

Pecyn Swydd

# Cydlynydd: Ymgysylltu Creadigol + Theatr Stryd

£25,000 y flwyddyn
Llawn Amser (37.5 awr yr wythnos)
Swydd barhaol

Dyddiad cau: 3 Awst 2025 (hanner nos)

Hijinx

## CROESO

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn Hijinx ac yn ein swydd Cydlynydd ar gyfer Ymgysylltu Creadigol + Theatr Stryd – rydym yn falch iawn eich bod yma.

Mae'r pecyn hwn yn rhoi ychydig mwy o gefndir i bwy ydyn ni, beth mae'r swydd yn ei olygu, a sut i ymgeisio. Yn Hijinx, rydym yn angerddol am y gwaith yr ydym yn ei wneud a'r bobl yr ydym yn ei wneud gyda nhw. Rydym wedi llunio ymdeimlad cryf o gymuned dros y blynyddoedd, ac rydym yn falch o'r diwylliant cynnes, cefnogol a gwirioneddol lawen yr ydym wedi ei feithrin. Credwn bod pobl yn gwneud eu gwaith gorau pan fyddant yn gallu bod yn nhw eu hunain - ac rydym yn gobeithio y byddwch chi'n teimlo hynny hefyd.

Os hoffech chi sgwrsio am unrhyw beth cyn ymgeisio, neu os oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud i'ch cefnogi chi neu wneud y broses gyfweld yn fwy hygyrch, anfonwch air ar jobs@hijinx.org.uk

Diolch eto am eich amser – rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at ddysgu rhagor amdanoch a gweld sut y gall eich sgiliau, profiad ac egni helpu i siapio beth sydd nesaf i Hijinx.

E.Wrightbrook

Ellis Wrightbrook
Uwch Gynhyrchydd



Hijinx

**EIN GWELEDIGAETH**

Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn gwbl gynhwysol i bobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig.

**EIN CENHADAETH**

Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig.

**AM HIJINX**

Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau.

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym raglen ffilm sy'n tyfu ac arlwy cymunedol ac allgymorth deinamig (PAWB). Trwy Actorion Hijinx, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r celfyddydau a diwydiannau creadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein hyfforddiant cyfathrebu arobryn.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

# RYDYM YN CREU NEWID TRWY FYW AC ANADLU EIN NODAU SEFYDLIADOL...



Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin



Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.




Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.





Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.

Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru



**"People with disabilities are there to show people that we're human and we want them to be entertained by what we do."**

Actor Hijinx sydd bellach yn gweithio ar gynhyrchu teithiol ar raddfa fawr

# DISGRIFIAD SWYDD.
# CYDLYNYDD: YMGYSYLLTU CREADIGOL + THEATR STRYD






Rydym yn chwilio am rywun â **chwilfrydedd, gofal a chreadigrwydd**. Efallai eich bod yn cymryd eich camau cyntaf mewn gyrfa gynhyrchu neu drefnu celfyddydol – ac mae hynny'n wych. Yr hyn sydd bwysicaf yw eich bod yn cynnig **cymhelliant, cynhesrwydd**, ac angerdd dros berfformio **cynhwysol** i'r cyhoedd.

Rydych yn rhywun sy'n mwynhau **gwneud i bethau ddigwydd** – y math o berson sy'n cael pleser gwirioneddol o greu cysylltiadau rhwng pobl, lleoedd a syniadau creadigol. Mae'n debyg eich bod yn mwynhau gwyliau, perfformiadau yn yr awyr agored, digwyddiadau cymunedol – ac ymdeimlad cryf o **sut mae celfyddyd yn cysylltu â gofod cyhoeddus.**

Byddwch yn cynnig llaw gadarn pan ddaw'n fater o **drefnu**: gwneud **cynlluniau**, cadw at **amserlenni**, olrhain **cyllidebau**, a **chyfathrebu'n** glir ar draws amrywiaeth o gydweithwyr. Nid oes arnoch ofn **logisteg** – a dweud y gwir, rydych yn ffynnu ar wneud i'r cymhleth deimlo'n syml a'i rannu. Mae gwneud **gwybodaeth yn hygyrch** a defnyddiol i eraill yn bwysig i chi ac rydych yn **mwynhau cefnogi tîm**.

**Byddwch yn alluogwr** – rhywun sy'n creu'r amodau i eraill ddisgleirio. Efallai eich bod wedi gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu neu awtistig o'r blaen, neu efallai eich bod wedi llunio mannau cynhwysol mewn ffyrdd eraill. **Yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn gwrando'n dda, yn cydweithio'n garedig, ac yn credu ym mhotensial creadigol pawb yr ydych yn gweithio gyda nhw.**

Byddem wrth ein bodd yn cyfarfod rhywun sydd:

- **Yn angerddol** am berfformio cynhwysol a chyfranogol, gan gynnwys theatr sy'n cael ei arwain gan y gymuned fel Odyssey
- **Yn chwilfrydig** am y sector celfyddydau awyr agored ac yn llawn syniadau ar gyfer cysylltiadau newydd
- **Yn gydweithiwr** naturiol sy'n cyfathrebu'n glir ac agored
- **Yn drefnus**, gyda greddf dda ac yn awyddus i ddatblygu sgiliau trefnu prosiectau.
- **Yn cael eich** adfywio gan deithio, llunio perthynas a llawenydd annisgwyl theatr stryd

Byddwch yn ymuno â thîm sy'n rhannu cyfrifoldeb, yn dathlu llwyddiannau ei gilydd, ac yn credu bod hygyrchedd a chelfyddyd yn mynd law yn llaw.

Os yw hynny'n swnio'n debyg i chi – neu'n agos at hynny – byddem wrth ein boddau yn clywed gennych.

Diverse Cymru Black, Asian and Minority Ethnic
Cultural Competence Certification Scheme

attitude is everything

itc 2025-2026 Fair Work Approved

disability confident EMPLOYER

ZERO RACISM WALES



# SWYDD.

Mae'r swydd hon yn nhîm **Theatr** Hijinx, sy'n gyfrifol am **greu, cynhyrchu a theithio** gydag amrywiaeth eang o brosiectau theatr cynhwysol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Adran fach, gydweithredol yw hi ac mae'n gweithio'n glos gyda'i gilydd i ddarparu cynyrchiadau o safon uchel, hygyrch.

Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â:

• Y **Cyfarwyddwr Artistig**, sy'n arwain gweledigaeth greadigol cynyrchiadau Hijinx.

• Yr **Uwch Gynhyrchydd** sy'n goruchwylio darparu a chynllunio strategol yr holl brosiectau theatr ac a fydd yn rheolwr llinell i chi.


• Y **Rheolwr Cynhyrchu**, sy'n arwain ar gynllunio technegol, logisteg a diogelwch ar draws ein holl weithgareddau.

Fel **Cydlynydd**, byddwch yn cefnogi gweithgareddau'r adran o ddydd i ddydd, yn bennaf yn cynorthwyo'r Uwch Gynhyrchydd gyda thasgau gweinyddu, cyfathrebu a chydlynu prosiectau.

Byddwch hefyd yn cysylltu gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Rheolwr Cynhyrchu yn ôl y galw i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu, cynlluniau yn cyd-fynd â'i gilydd, a phawb yn gweithio oddi ar yr un dudalen.

Mae hwn yn gyfle gwych i rywun sydd am ddysgu sut y mae tîm cynhyrchu yn gweithredu ac sy'n mwynhau bod yn rhan o amgylchedd creadigol cefnogol, ar sail gwerthoedd.

**Bydd arnoch angen bod yn llawn cymhelliant, yn berson cynnes ac â dawn i gysylltu pobl, lleoedd a syniadau.**



# CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL.

**CEFNOGI CELFYDDYDAU YN YR AWYR AGORED**

- Cynorthwyo i gynllunio a threfnu cynyrchiadau theatr stryd Hijinx, dan oruchwyliaeth yr Uwch Gynhyrchydd a thrwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Artistig.
- Helpu i reoli amserlenni, archebion a logisteg ar gyfer ymarferion, perfformiadau a theithiau.
- Cydweithio gydag artistiaid, timau creadigol, lleoliadau a thimau technegol i sicrhau bod cynyrchiadau yn gryf yn artistig, yn hygyrch ac yn cael eu darparu yn llyfn.
- Rhoi cefnogaeth ymarferol ar deithiau cenedlaethol a rhyngwladol, gan helpu i sicrhau diogelwch, llesiant ac ansawdd cyffredinol y profiad i bawb.

**YMGYSYLLTU A GALLUOGI CREADIGOL**

- Meithrin perthynas gref gydag Actorion Hijinx a'u rhwydweithiau cefnogi i'w galluogi i chwarae rhan lawn mewn prosiectau.
- Helpu i drefnu perfformiad Nadolig blynyddol Odyssey, gan weithio'n glos gyda Phennaeth PAWB. Odyssey yw ein grŵp perfformio cymunedol yng Nghaerdydd, a bydd y swydd hon yn cefnogi ei ethos cynhwysol a chyfranogol.
- Cefnogi'r tîm i ymwreiddio arferion cynhwysol ar bob cam wrth gynllunio a darparu gwaith creadigol.
- Cyfrannu at ddylunio a gweithredu offer hygyrchedd, dulliau ymarfer, a dulliau creadigol sy'n croesawu a grymuso artistiaid ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

**CEFNOGAETH YMGYSYLLTU A LLUNIO PERTHNASAU YN Y SECTOR**

- Cefnogi'r Uwch Gynhyrchydd wrth ddynodi partneriaid creadigol newydd, cyfleoedd comisiynu, a gwahoddiadau i deithio ar gyfer gwaith theatr stryd.
- Mynychu digwyddiadau rhwydweithio a'r sector, gan gynrychioli Hijinx pan fydd yn briodol.

**TREFNU A GWEINYDDU PROSIECTAU**

- Cynorthwyo'r Uwch Gynhyrchydd wrth olrhain cyllidebau prosiectau a chadw cofnodion ariannol yn gyfredol.
- Cynhyrchu cofnodion cyfarfodydd a rhestrau gweithredu pan fydd angen, cefnogi cadw cofnodion iechyd a diogelwch (gan gynnwys asesiadau risg), a chyfrannu at baratoi adroddiadau cyllidwyr.
- Helpu i gadw cofnodion a systemau ffeilio hygyrch, cyfredol, gan sicrhau bod gwybodaeth am brosiectau yn hawdd ei chanfod a'i rhannu.
- Cyfrannu at gynllunio'r tîm trwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi mewn ffordd sy'n hwyluso trosglwyddo a chydweithio.



# CYFRIFOLDEBAU PARHAD.

**CYFRIFOLDEBAU CYFFREDINOL**

- Cefnogi'r Uwch Gynhyrchydd a'r Adran Theatr wrth drefnu a darparu prosiectau theatr ehangach yn ôl y gofyn.
- Defnyddio dull rhagweithiol, yn canolbwyntio ar y tîm a chyfrannu at ddiwylliant gwaith cadarnhaol a chynhwysol.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau hyfforddi, a gwerthusiadau.
- Cadw at werthoedd Hijinx o gynhwysiant, parch, creadigrwydd a rhagoriaeth ac eiriol drostynt.
- Cyfrannu at ddigwyddiadau â chyswllt â'r cyhoedd a pherfformiadau pan fydd angen.
- Cefnogi nodau cynaliadwyedd amgylcheddol Hijinx trwy ystyried dewisiadau a defnyddio adnoddau yn eco-ymwybodol.
- Cadw'n chwilfrydig am ddatblygiadau yn y sector ac ymarfer celfyddydau cynhwysol, gan ddwyn syniadau yn ôl a all fod yn sail i'n rhaglenni, partneriaethau neu ddulliau creadigol.

- Mae gan Hijinx ymagwedd gydweithredol tuag at waith lle mae staff yn helpu ac yn cefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sydd ei hangen i sicrhau bod y cwmni'n rhedeg yn esmwyth ac yn cyflawni'r gwaith.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u rhestru ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall sy'n briodol i'w rôl yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell

**TEITHIO A HYBLYGRWYDD**

- Mae'r swydd yn gofyn am deithio cyson yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn achlysurol. Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn gyfforddus yn gweithio ar rai penwythnosau ac ar fin nos, yn arbennig pan fydd ar daith.
- Cynigir Amser O'r Gwaith yn Lle Oriau a Weithiwyd  (TOIL) yn unol â pholisïau Hijinx i gefnogi llesiant a chydbwysedd bywyd/gwaith.

# Manyleb Person.

Nid oes raid i chi fedru rhoi tic ym mhob blwch ar y fanyleb person. Os oes un neu ddau o feysydd nad ydych yn cyfateb iddyn nhw'n llawn, mae hynny'n iawn.

Rhowch wybod i ni sut y byddech yn dod â sgiliau neu brofiad trosglwyddadwy – a byddwn yn barod i dderbyn ffyrdd y gallwn gefnogi eich datblygiad yn y swydd.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Gallu** | | |
| Y gallu i wrando'n weithredol ac ymateb yn sensitif i anghenion pobl eraill. | X | |
| Yn gallu dilyn cyfarwyddiadau yn fanwl a chadw golwg ar fanylion. | X | |
| Y gallu i reoli amser a chadw'n dawel dan bwysau neu pan fydd cynlluniau'n newid | X | |
| Sgiliau trefnu cryf gyda'r gallu i reoli tasgau a blaenoriaethu llwyth gwaith. | X | |
| Yn cyfathrebu'n glir a hyderus. | X | |
| Yn gallu gweithio'n greadigol ac yn gydweithredol i ddatrys problemau. | X | |
| Yn gallu gweithio'n ddigymell ac annibynnol gan wybod pryd i ofyn am arweiniad. | X | |
| Defnyddiwr offer digidol hyderus i gyfathrebu a threfnu (e.e. Office 365, SharePoint, Zoom, Slack). | | X |
| Y gallu i siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg. | | X |
| **Profiad** | | |
| Profiad yn trefnu prosiectau neu ddigwyddiadau mewn lleoliad creadigol, cymunedol neu ddiwylliannol. | | X |
| Profiad y gellir ei ddangos o brosesau gweinyddol fel trefnu amserlen, rheoli archebion neu gadw cofnodion. | | X |
| Profiad yn gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu a/neu niwroamrywiol mewn cyd-destun celfyddydol, addysg neu gymorth. | | X |
| Profiad o weithio mewn celfyddydau awyr agored/theatr stryd neu berfformio penodol i safle. | | X |
| Profiad yn cefnogi artistiaid llawrydd neu dimau creadigol. | | X |
| Profiad o greu perthynas gyda gwyliau / lleoliadau. | | X |

# Manyleb Person Parhad.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | | |
| Gwybodaeth am y sector celfyddydol yng Nghymru yn gyffredinol. | | X |
| Gwybodaeth am y sector celfyddydau cynhwysol yn y Deyrnas Unedig a/neu waith cwmnïau fel Hijinx. | | X |
| Dealltwriaeth o beth sydd ei angen wrth drefnu prosiect creadigol o gynllunio i gyflawni. | X | |
| Ymwybyddiaeth o rwystrau y mae pobl anabl a/neu niwroamrywiol yn gallu eu hwynebu yn y celfyddydau neu mewn mannau cyhoeddus. | | X |
| Dealltwriaeth o werth cyfleoedd cynhwysol a chreadigol i bawb. | | X |
| Ymwybyddiaeth o’r gwahaniaeth rhwng hygyrchedd, cynhwysiant a thegwch. | | X |
| Dealltwriaeth o’r hyn sy’n gwneud tîm neu broses gydweithredol da. | X | |
| **Agwedd** | | |
| Llawn cymhelliant gydag angerdd am y celfyddydau. | X | |
| Yn mwynhau amgylchedd gwaith prysur a gweithio ar nifer o brosiectau ar yr un pryd. | X | |
| Trefnus, effeithlon, dibynadwy ac y gellir ymddiried ynoch. | X | |
| Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | X | |
| Yn parchu gwahaniaeth ac yn hyderus wrth weithio gyda phobl y gall eu harddull cyfathrebu, ymddygiad neu batrymau fod yn wahanol i’ch rhai chi. | X | |
| Yn gyfforddus gydag ansicrwydd – yn deall bod gweithio yn y celfyddydau yn aml yn golygu addasu i newid. | X | |
| Yn mwynhau dathlu llwyddiannau pobl eraill a chefnogi eu llwyddiant. | X | |
| Yn gadarnhaol am ddysgu oddi wrth gamgymeriadau a thyfu gyda chefnogaeth. | X | |
| Wedi cyffroi o feddwl am wneud i waith ddigwydd ‘tu ôl i’r llenni’. | X | |

# TERMAU.

| | |
|---|---|
| Yn adrodd i: | Uwch Gynhyrchydd |
| Contract: | Parhaol yn dilyn cyfnod prawf o 6 mis |
| Oriau: | Llawn-amser, 37.5 awr yr wythnos (peth gwaith min nos/penwythnos a theithio yn ddisgwyliedig, a chynigir TOIL) |
| Lleoliad: | Caerdydd, gyda gweithio hyblyg a theithio yn y Deyrnas Unedig/yn rhyngwladol yn gyson |
| Cyflog Cychwynnol: | £25,000 y flwyddyn |
| | Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith, cymorth i ddysgu Cymraeg, a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.<br>Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n agos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion yn cael ei fodloni yn y maes hwn |
| Gwyliau: | 30 diwrnod y flwyddyn + a Gwyliau Banc statudol |



NODIADAU CYFFREDINOL

• Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

• Mae tîm Hijinx yn fach, ond yn ystwyth, ac yn cyflawni'n uwch o lawer na'r disgwyl, gyda chymorth criw rhyfeddol o weithwyr ar eu liwt eu hunain a gwirfoddolwyr.

- Rydym yn datblygu ac annog ein gweithwyr i dyfu yn eu rolau a bod y gorau y gallant fod.
- Anelwn at ymagwedd gydweithredol at waith lle mae aelodau staff yn helpu a chefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y cwmni'n cael ei gynnal yn ddidrafferth a bod y gwaith yn cael ei gyflawni.
- Mae'r Pecyn Swydd hwn yn ddangosol yn hytrach na chynhwysfawr, a bydd angen agwedd hyblyg at rôl a thasgau'rswydd.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrir ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall fel sy'n briodol i'w rôl ar gais ei reolwr llinell.
- Diogelu - Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau sy'n dangos ei hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig.



# I WNEUD CAIS

Os ydych yn credu eich bod yn addas i'r rôl ac yr hoffech wneud cais, anfonwch y canlynol atom:

1. CV cyfredol sy'n sôn am eich profiad gwaith hyd yma – gwnewch yn siŵr eich bod yn amlygu profiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.
2. Llythyr eglurhaol – nad yw'n hwy na dwy ochr – sy'n dweud wrthym pam yr ydych yn ymgeisydd delfrydol a sut byddwch yn mynd ati i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.
3. Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi'i llenwi – y dylid ei llenwi ar-lein yma – cadarnhewch yn eich llythyr eglurhaol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Rydyn ni'n gwybod y gall ymgeisio am swyddi deimlo'n llethol weithiau – yn enwedig os nad yw prosesau safonol bob amser yn gweithio i chi. Os nad ysgrifennu yw eich hoff ffordd o gyfathrebu, gallwch anfon fideo neu ffeil sain atom (hyd at 5 munud) yn lle llythyr eglurhaol ysgrifenedig.

Dylid anfon ceisiadau i jobs@hijinx.org.uk erbyn y dyddiad cau.

**AMSERLEN**

**03 Awst 2025** - Ceisiadau'n cau am hanner nos

**04 - 08 Awst 2025** - Mae ceisiadau'n cael eu sgrinio a'u gwneud yn ddienw

**11 - 22 Awst 2025** - Llunio rhestr fer

**26 Awst 2025** - Bydd pob ymgeisydd wedi derbyn penderfyniad

**15 - 17 Medi 2025** – Cyfweliadau

**27 Hydref 2025** - Dyddiad cychwyn disgwyliedig

Cynllun Gwarant o Gyfweliad Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu Cynllun Gwarant o Gyfweliad i ymgeiswyr sy'n cael eu tangynrychioli ar ein tîm. Gallwch ofyn am gael eich ystyried dan ein Cynllun Gwarant o Gyfweliad os ydych yn unigolyn o'r Mwyafrif Byd-eang neu os oes gennych nam corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith negyddol tymor hir ar eich gallu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi ym manyleb y swydd, fe'ch gwahoddir i gyfweliad. Dim ond gyda thîm Adnoddau Dynol Hijinx a'r rheolwr recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad wedi ei warantu yn cael ei rannu. Os hoffech gael eich ystyried dan y cynllun, nodwch hyn yn eich llythyr esboniadol.

**RECRIWTIO DIENW**

Er mwyn helpu i leihau rhagfarn anymwybodol, mae popeth y byddwch yn ei anfon atom ni yn cael ei droi yn ddienw ac rydym yn adolygu llythyrau esboniadol cyn edrych ar CV. Mae hynny'n golygu na fyddwn yn gweld dim o'ch manylion personol – fel eich enw, addysg neu hanes cyflogaeth – nes byddwn wedi gorffen ein rownd gyntaf o lunio rhestr fer. Felly gofalwch bod eich llythyr esboniadol yn cynnwys popeth yr ydych am i ni ei wybod am y rheswm pam y gallech chi fod yn iawn ar gyfer y swydd.

Os nad ysgrifennu yw eich dewis o ran cyfathrebu, gallwch anfon fideo neu ffeil sain atom (hyd at 5 munud) yn hytrach na llythyr esboniadol ysgrifenedig. Os byddwch yn dewis cyflwyno recordiad, bydd y panel llunio rhestr fer yn clywed eich llais (ac, os byddwch yn cyflwyno fideo, yn gwybod sut yr ydych yn edrych) ond ni fyddant yn gallu gweld eich CV, eich enw na'ch profiad blaenorol. Pa bynnag ffordd y byddwch yn anfon y wybodaeth atom ni, mae'n bwysig i chi roi gwybod i ni pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y mae eich profiad yn cyd-fynd â'r fanyleb person.